*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

STATUTORY INSTRUMENTS

# 1994 No. 2931

# HOUSING, ENGLAND AND WALES

## The Housing (Right to Buy Delay Procedure) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1994

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *9th November 1994* |
| *Coming into force - -* | *12th December 1994* |

The Secretary of State for Wales in exercise of the powers conferred on him by section 176(1) and (5) of the Housing Act 1985(**1**) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**) and of all other powers enabling him in that behalf, hereby makes the following Regulations:–

### Citation and commencement

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Housing (Right to Buy Delay Procedure) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1994 and shall come into force on 12th December 1994.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Housing (Right to Buy Delay Procedure) (Prescribed Forms) Regulations 1989(**3**).

**2.** The forms set out in the Schedule to these Regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of the corresponding forms in the Schedule to the principal Regulations for the purposes set out in regulation 2 of the principal Regulations.

**3.** Forms substantially to the like effect to the forms set out in the Schedule to these Regulations may be used.

(**1**) 1985 c. 68.
(**2**) 1993. c.38.
(**3**) S.I.1989/240 as amended by S.I. 1993/2245.

SCHEDULE

Regulation 2

## Ffurflen RTB6DEDDF TAI 1985: ADRAN 153A(1)Hysbysiad cychwynnol o Oediad

**Cyffredinol**

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan denantiaid i awdurdodau lleol ac i rai cyrff eraill sydd wedi gwneud cais am ymarfer yr hawl i brynu eu cartrefi (neu'r hawl i gaffael eu cartrefi ar delerau rhent i forgais) ac sy'n cael eu gohirio gan y landlord.

Rhowch y manylion canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo yr ydych yn dymuno'i brynu

Enw'ch landlord

Rhowch ddyddiad eich cais am brynu a rhif cyfeirnod eich landlord os ydych yn gwybod beth ydyw.

Dyddiad y cais

Rhif cyfeirnod y landlord

Dywedwch beth a wnaeth eich landlord ddiwethaf, hyd y gwyddoch chi, wrth drafod eich cais:

**I'r Landlord:**

Yr wyf yn cyflwyno'r hysbysiad hwn o oediad oherwydd -
(ticiwch un o'r rhesymau canlynol)

A. nid ydych eto wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 124 (yn derbyn neu'n gwadu'r hawl i brynu) ☐

B. nid ydych eto wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 125 (yn rhoi eich barn ynghylch y pris prynu) ☐

C. mae oediadau ar eich rhan chi yn gohirio'r gwerthu o dan yr hawl i brynu ☐

D. mae oediadau ar eich rhan chi yn gohirio'r gwerthu ar delerau rhent i forgais. ☐

**Nodiadau**

*Ticiwch A* os nad ydych eto wedi cael hysbysiad oddi wrth eich landlord (RTB2) yn cadarnhau neu'n gwadu'ch hawl i brynu a'r amser ar gyfer anfon yr hysbysiad hwnnw wedi dod i ben. Dylai gael ei anfon atoch o fewn pedair wythnos ar ôl y dyddiad pan wnaethoch gais am ymarfer yr hawl i brynu, ond wyth wythnos yw'r terfyn amser os nad ydych wedi bod yn denant i'r landlord presennol am ddwy flynedd.

*Ticiwch B* os sefydlwyd bod gennych yr hawl i brynu, os yw wyth wythnos wedi mynd heibio (neu ddeuddeg wythnos os ydych yn prynu fflat neu dŷ prydlesol), ac os nad ydych eto wedi cael hysbysiad oddi wrth eich landlord yn dweud wrthych am ba bris y mae'r landlord yn credu bod gennych hawl i brynu.

*Ticiwch C* os gohiriwyd eich pryniad gan eich landlord mewn rhyw ffordd arall (ac os nad ydych yn prynu ar delerau rhent i forgais). Er enghraifft, os ydych wedi cael hysbysiad ynghylch y pris prynu ac wedi cyflwyno hysbysiad i'ch landlord yn datgan bod arnoch eisiau mynd ymlaen â'ch cais am ymarfer yr hawl i brynu, ond nid yw eich landlord yn symud ymlaen yn rhesymol tuag at gwblahau'r gwerthiant.

*Ticiwch D* os gohiriwyd eich pryniad gan eich landlord mewn rhyw ffordd arall a chithau'n prynu ar delerau rhent i forgais. Er enghraifft, os yw'r oedi yn codi oherwydd:

* nad yw'ch landlord wedi rhoi hysbysiad i chi yn derbyn neu'n gwadu eich hawl i gaffael ar delerau rhent i forgais, neu
* na roddodd eich landlord hysbysiad i chi yn datgan cyfran y landlord a swm y disgownt cychwynnol, ar ôl i chi gyflwyno hysbysiad bod arnoch eisiau mynd ymlaen â'ch cais am gaffael ar delerau rhent i forgais, neu
* fod eich landlord wedi rhoi'r ddau hysbysiad hwn i chi, ond nid yw'n symud ymlaen yn rhesymol tuag at gwblhau'r gwerthiant.

Yr wyf yn cyflwyno hysbysiad i chi o dan adran 153A Deddf Tai 1985. Y cyfnod ymateb (gweler y nodyn) yw mis o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwn.

| Llofnod | Cyfenw | Enwau Eraill | Dyddiad |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | |

**Nodiadau**

Y cyfnod ymateb yw'r amser yr ydych yn ei roi i'r landlord i ateb. Dylech ganiatáu o leiaf un mis calendr. Os ydych am roi mwy o amser, dilëwch 'un mis' ac ysgrifennwch y cyfnod yr ydych yn ei ganiatáu yn ei le.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, ewch â hi at eich landlord neu anfonwch hi trwy ddosbarthiad a gofnodwyd. Os ewch â hi mewn llaw, gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r ffurflen a nodwch y dyddiad pan wnaethoch ei chyflwyno neu ei phostio.

## Ffurflen RTB7DEDDF TAI 1985: ADRAN 153A(3)(B)GWRTH-HYSBYSIAD LANDLORD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlordiaid y cyflwynwyd hysbysiad cychwynnol o oediad iddynt lle dywedodd y tenant fod oedi ar ran y landlord yn gohirio'r gwerthiant.

Ni fwriedir iddi gael ei defnyddio lle bo hysbysiad y tenant yn dweud nad yw'r landlord eto wedi cyflwyno hysbysiad o dan adran 124 neu 125.

ENW'R LANDLORD ........................................................

I: Enw(au) person(au) sy'n ymarfer yr hawl i brynu neu'r hawl i gaffael ar delerau rhent i forgais.

| Cyfenw | Enwau Eraill | Cyfeiriad yr eiddo |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r gwrth-hysbysiad hwn yn ymateb i hysbysiad cychwynnol o oediad a gyflwynwyd ar *[dyddiad]*.

Nid oes unrhyw gamau i ni eu cymryd er mwyn caniatáu i chi ymarfer yn brydlon eich hawl i brynu neu i gaffael ar delerau rhent i forgais nad oedd wedi cael eu cymryd pan wnaethoch gyflwyno eich hysbysiad ac sy'n aros i'w cymryd ar ddyddiad yr hysbysiad hwn oherwydd–

*Rhowch y rhesymau llawn gan gynnwys y cam diweddaraf a gymerwyd gan y landlord a dywedwch ble mae'r cyfrifoldeb am gymryd camau ar hyn o bryd.*

NODYN I'R LANDLORD
Mae Adran 153A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i wrth-hysbysiad bennu'r amgylchiadau y'u cyflwynir odanynt; rhaid i'r amgylchiadau fod fel y'u nodwyd yn adran 153A(3)(b).

NODYN I'R TENANT
Mae'r hysbysiad hwn yn gwadu bod y landlord yn gohirio'ch pryniad o'ch cartref. Os nad ydych yn cytuno â'r hyn a ddywed y landlord ar y ffurflen hon, hwyrach y byddwch yn dymuno cymryd cyngor cyfreithiol.

Llofnodwyd ar ran y landlord .................................................. Enw ..............................

Swydd a ddelir ........................................................................ Dyddiad ..............................

**Ffurflen RTB8DEDDF TAI 1985: ADRAN 153A(5)Hysbysiad Gweithredol o Oediad**

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan denant sydd wedi gwneud cais am ymarfer yr hawl i brynu neu'r hawl i gaffael ar delerau rhent i forgais ac sydd wedi cyflwyno hysbysiad cychwynnol o oediad (ffurflen RTB6) o dan adran 153A Deddf Tai 1985. Os aeth yr amser ar gyfer ymateb i'r hysbysiad cychwynnol heibio a'r landlord heb gyflwyno gwrth-hysbysiad, gall y tenant gyflwyno'r ffurlen hon. Effaith hyn yw bod rhaid i'r landlord dynnu o'r pris prynu swm sy'n seiliedig ar y rhent a dalwyd mewn gwirionedd yn ystod cyfnod yr oediad.

Rhowch y manylion canlynol:

Cyfeiriad yr eiddo yr ydych yn dymuno'i brynu

Enw'ch landlord

Rhowch y dyddiad pan gyflwynwyd yr hysbysiad cychwynnol o oediad i'r landlord a rhif cyfeirnod y landlord ar gyfer eich cais os ydych yn gwybod beth ydyw.

Dyddiad yr hysbysiad cychwynnol o oediad

Rhif cyfeirnod y landlord

**I'r Landlord:**

Cyflwynwyd hysbysiad cychwynnol o oediad i chi o dan adran 153A Deddf Tai 1985 ac ni chyflwynwyd gwrth-hysbysiad o fewn y cyfnod ymateb. Bydd adran 153B yn gymwys i daliadau rhent a wnaed o'r dyddiad cau. lle gwnaethoch fethu â chyflwyno hysbysiad o dan adran 124 neu 125 o'r Ddeddf honno, ac mewn unrhyw achos arall o'r dyddiad pryd y cyflwynwyd yr hysbysiad hwn.

| Llofnod | Cyfenw | Enwau Eraill | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Nodiadau**

Lle cyflwynodd y tenant hysbysiad cychwynnol o oediad (RTB6) am i'r landlord beidio â chyflwyno hysbysiad o dan adran 124 neu 125 Deddf Tai 1985, bydd taliadau rhent a wnaed ar ôl y dyddiad pan ddylai'r hysbysiad fod wedi ei gyflwyno yn gostwng y pris prynu. Lle y'i cyflwynwyd oherwydd achosion eraill o oedi, bydd taliadau rhent ar ôl cyflwyno'r hysbysiad hwn yn gostwng y pris prynu.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, ewch â hi at eich landlord neu anfonwch hi ato drwy ddosbarthiad a gofnodwyd. Os ewch â hi mewn llaw, gofynnwch am dderbynneb. Cadwch gopi o'r ffurflen a nodwch y dyddiad y gwnaethoch ei chyflwyno neu ei phostio.

Signed by authority of the Secretary of State for Wales

*Gwilym Jones*
Parliamentary Under Secretary of State Welsh Office

9th November 1994

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg i ffurflenni hysbysiad y Rheoliadau Tai (Gweithdrefn Oediad Hawl i Brynu) (Ffurflenni Penodedig) 1989, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau Tai (Gweithdrefn Ordiad Hawl i Brynu) (Ffurflenni Penodedig) (Diwygio) 1993.

Y ffurflenni y pennir fersiynau Cymraeg ar eu cyfer o dan y Rheoliadau hyn yw:–

(a) Ffurflen hysbysiad cychwynnol o oediad o dan adran 153A(1) Deddf Tai 1985 (ffurflen RTB6).

(b) Ffurflen gwrth–hysbysiad o dan adran 153A(3)(b) Deddf Tai 1985 (ffurflen RTB7).

(c) Ffurflen ar gyfer hysbysiad gweithredol o oediad o dan adran 153A(5) Deddf Tai 1985 (ffurflen RTB8).

---

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe Welsh versions of the forms of notice of the Housing (Right to Buy Delay Procedure) (Prescribed Forms) Regulations 1989 as amended by the Housing (Right to Buy Delay Procedure) (Prescribed Forms) (Amendment) Regulations 1993.

The forms for which Welsh versions are prescribed by these Regulations are:–

(a) The form for an initial notice of delay under section 153A(1) of the Housing Act 1985 (form RTB6).

(b) The form for a counter notice under section 153A(3)(b) of the Housing Act 1985 (form RTB7).

(c) The form for an operative notice of delay under section 153A(5) of the Housing Act 1985 (form RTB8).